# SL(5)652 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau") er mwyn hepgor yr Almaen a Sweden o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt yn y prif Reoliadau ac i wneud darpariaethau trosiannol. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud diwygiad technegol i destun Cymraeg y prif Reoliadau er mwyn rhoi effaith i ddarpariaethau Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, Materion y Gymanwlad a Materion Datblygu) 2020.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 am ar 7 Tachwedd 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau hyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pum pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

**Hawliau Dynol**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, rydym yn nodi eglurhad y Llywodraeth a gynhwyswyd yn y Memorandwm Esboniadol bod cyngor "*sydd bellach wedi dod i law oddi wrth y Gydganolfan Bioddiogelwch yn dangos bod y risg i iechyd y cyhoedd yn sgil mynychder a lledaeniad y coronafeirws wedi cynyddu yn yr Almaen a Sweden*".

Yn y Memorandwm Esboniadol, sy'n ymwneud â'r Rheoliadau hyn a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) 2020, mae Llywodraeth Cymru yn dweud y canlynol:

> *Nid yw'r diwygiadau yn y ddau set o Reoliadau hyn yn newid y ffaith fod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol; mae'r Llywodraeth o'r farn eu bod yn gymesur a hefyd yn gyfiawn at ddiben atal lledaeniad haint a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd.*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

## Ymgynghoriad

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau [….] Rhif 19"*

Mewn llythyr at y Llywydd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, dyddiedig 6 Tachwedd 2020, eglurir y canlynol hefyd:

> *"Oherwydd natur frys y Rheoliadau ni chynhaliwyd ymgynghoriad."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

## Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Nodwn nad oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau hyn, nac ychwaith ar gyfer y prif Reoliadau, a gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio pa drefniadau y mae wedi eu gwneud, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn neu'r prif Reoliadau, i gyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn unol â rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

## Torri'r rheol 21 diwrnod

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a roddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 6 Tachwedd 2020.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

*"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

### Dogfen eglurhaol

Rydym yn nodi ac yn croesawu cyhoeddiad dogfen eglurhaol gan Lywodraeth Cymru, sy'n nodi'r amrywiol ddiwygiadau a wnaed i'r prif Reoliadau er mwyn cynorthwyo'r darllenydd i ddeall y prif Reoliadau.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol mewn perthynas â'r trydydd pwynt rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Tachwedd 2020**